



Cynghorion ynghylch cyrraedd etholwyr anabl

Sicrhau bod eich etholwyr yn bwrw eu pleidlais

- Byddwch yn barod i egluro'r opsiynau o ran pleidleisio – gan gynnwys pleidleisio trwy'r post. Os bydd rhywun yn gofyn cwestiwn na allwch ei ateb, chwiliwch am fanylion penodol a chysylltwch yn ôl â'r unigolyn. Dylech osgoi dyfalu neu fod yn amwys.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn ymwybodol o'r trefniadau o ran cael mynediad i'ch gorsafoedd pleidleisio lleol.
- Gall cymorth â chlodiant a chael cwmni i fynd i'r orsaf bleidleisio fod yn werthfawr iawn i bleidleiswyr anabl.
- Wrth ganfasio o ddrws i ddrws, byddwch yn effro i anghenion pobl o ran cyfathrebu a chaniatewch ddigon o amser i berson anabl gyrraedd y drws.
- Byddwch yn barod i gynnig eich deunydd darllen mewn fformatau eraill. Er enghraifft, gall print bras a phlaen, tapiau sain neu ddulliau eraill (e.e. galwad ffôn) olygu bod gwybodaeth yn hygyrch i bobl â nam ar eu golwg.
- Mae rhifau ffôn sy'n dechrau ag 18002 yn rhifau ffôn testun ar gyfer pobl fyddar neu bobl â nam ar eu clyw. Gallwch ddefnyddio ffôn arferol i ffonio ffôn testun. Ewch i Text Relay i gael mwy o wybodaeth: <http://www.textrelay.org>

Gorsafoedd pleidleisio

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn rhoi dyletswydd gyfreithiol ar awdurdodau lleol i sicrhau bod gorsafoedd pleidleisio yn hygyrch. Dylai pob gorsaf bleidleisio gynnig y canlynol:

- Mannau parcio hygyrch a dull o gyrraedd yr adeilad heb orfod dringo grisiau
- Templed pleidleisio cyffyrddol, a thempled pleidleisio mewn braille ac mewn print bras
- Rampiau a bythau pleidleisio llydan ar lefel isel sy'n addas i ddefnyddwyr cadair olwyn
- Golau da a seddi i'r rheini y gallai fod arnynt eu hangen.

Dylai'r staff fod yn barod eu cymorth a dylent ymateb i unigolion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt. Dylent ddeall yr addasiadau y gellir eu gwneud i

alluogi pobl anabl i bleidleisio, a dylent fod yn ymwybodol o'r rheolau ynghylch y gallu i bleidleisio.

Peidiwch ag ofni gofyn i bobl anabl sut y gallwch eu cynorthwyo i gymryd rhan yn yr etholiad.

I gael mwy o wybodaeth neu gopïau o'r daflen hon mewn fformatau eraill, cysylltwch â Sense -

Rhif ffôn / ffôn testun: 0845 127 0066 (rhif amgen: 0207 520 0972)

Ebost: info@sense.org.uk